# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod: 3 Chwefror, 2011** |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol: Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden** |
| **Aelod Portffolio Perthnasol: Cyng Eurfryn Davies** |

## Teitl yr Adroddiad

Adroddiad Monitro'r Cyngor Sir ar Weithrediad ei Gynllun Iaith i Fwrdd yr Iaith am y cyfnod 2009-10 (gweler Atodiad A).

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor Sir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am y cyfnod 2009-10 ynghyd â sylwadau'r Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar yr adroddiad ac ymateb y Cyngor Sir i'r sylwadau hyn (gweler Atodiad B).

### 2.0 Materion ar gyfer Sgriwtini

Cynnydd y Cyngor Sir yn erbyn ei brif risg sef i baratoi Strategaeth Sgiliau Iaith sydd yn fodd i gynllunio fod gan y gweithlu y sgiliau iaith digonol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau'n cael ei darparu yn newis iaith y defnyddiwr yn unol â gofynion stadudol.

Yr angen i sicrhau trefniadau craffu digonol ar weithrediad y Cynllun Iaith gan gynnwys y penodiadau a wneir i swyddi . Argymhellir fod y Grwp Tasg Iaith corfforaethol yn adrodd ar unrhyw risg i'r Pwyllgor hwn a bod hyn yn cael sylw fel rhan o raglen waith y Pwyllgor hwn.

**Cefndir**

Mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor Sir i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i adrodd ar ei berfformiad yn erbyn y gofynion statudol a amlinellir yn ei Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o gwmpas y 5 dangosydd perfformiad a bennir gan Fwrdd yr Iaith ac fe adroddir yn

ogystal ar y prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor.  Yn yr ymateb a geir i'r Adroddiad Monitro i Fwrdd yr Iaith ceir cymeradwyaeth am rai elfennau megis yr Arolwg Siopwr Cudd a gynhaliwyd, y drefn i ddelio â chwynion iaith a'r ymgais i brif ffrydio'r Gymraeg ar lefel strategol.  Yn ogystal, cynhaliodd Bwrdd yr Iaith  ymarferiadau gwirio ar ffurflenni a gwybodaeth gyffredinol Etholiad Cyffredinol 2010, hysbysebion yn y cyfryngau a'r tudalennau gwybodaeth, ffurflenni a'r gwasanaethau ar gael trwy gyfrwng y wefan.  Roedd Bwrdd yr Iaith o'r farn fod y Cyngor Sir yn darparu'r gwasanaethau hyn i gyd yn ddwyieithog.  Serch hynny mynegwyd awydd cryf i weld y Cyngor Sir yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau erbyn Ionawr, 2011.  Bellach mae Strategaeth ddrafft wedi'i chwblhau a'i chylchredeg ar gyfer sylwadau mewnol. Bydd gan y Pwyllgor rôl i graffu cynnydd cynllun gweithredu'r Strategaeth Sgiliau.

**Enw, Teitl y Swydd, Adran**

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth

Dyddiad 21 Ionawr, 2011

---

**Atodiadau**

**Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol**

Cyflwynwyd a chymeradwywyd yr Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Hydref, 2010.

**Papurau Cefndir**

Adroddiad Monitro'r Cyngor Sir i Fwrdd yr Iaith am y cyfnod 2009-10 (Atodiad A)
Crynodeb o sylwadau Bwrdd yr Iaith ac ymateb y Cyngor Sir iddynt.   (Atodiad B)

Swyddog Cyswllt:    Carol Wyn Owen

**ADRODDIAD MONITRO CYNGOR SIR YNYS MON I FWRDD YR IAITH GYMRAEG AM Y CYFNOD 2009-2010**

## 1. CYFLWYNIAD

Dengys Cyfrifiad 2001 bod 60.1% o boblogaeth Ynys Môn (dros 3 oed) yn siarad Cymraeg ac er bod hyn yn gosod Môn yn un o gadarnleoedd i'r Gymraeg yng Nghymru mae'n dangos gostyngiad o 2.15% yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg ym Môn ers cyfrifiad 1991. Yn ôl Cyfrifiad 1991 roedd poblogaeth Môn (dros 3 oed )yn 66,525 ac erbyn Cyfrifiad 2001 roedd wedi gostwng i 64,679. Y Cyngor Sir yw'r cyflogwr mwyaf ar yr ynys ac mae'n cyflogi rhagor na 3000 o weithwyr (gan gynnwys staff yr ysgolion).

### 1.1. Cynllun Iaith y Cyngor Sir

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ei Gynllun Iaith yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cyngor a mae iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Mae'r Cynllun Iaith a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993 yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn glynu wrth yr egwyddor o gydraddoldeb wrth ddarparu ei wasanaethau i'r cyhoedd ac wrth gynnal ei weinyddiad mewnol. Cymeradwywyd Cynllun Iaith y Cyngor Sir ar 12 Gorffennaf, 1996 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe gyhoeddwyd yr ail argraffiad yn Awst, 1998 a'r trydydd argraffiad yn Rhagfyr, 2007. Bwriedir adolygu'r Cynllun Iaith a chyhoeddi'r pedwerydd argraffiad o fewn amserlen cytunedig gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae gan y Rheolwr-gyfarwyddwr gyfrifoldeb am gadw gorolwg dros y Cynllun a'i weinyddu. Yn ogystal, mae Deilydd Portffolio Iaith a Chyfarwyddwr Corfforaethol gyda chyfrifoldeb am yr iaith ar lefel strategol. Mae Swyddog Iaith y Cyngor gyda chyfrifoldeb dydd i ddydd am faterion iaith a monitro gweithrediad y Cynllun Iaith a pharatoi'r adroddiad hwn. Mae Grwp Tasg Iaith o fewn y Cyngor sy'n ymdrin â'r iaith ar lefel strategol dan gadeiryddiaeth y Deilydd Portffolio Iaith.

Gellir cyflwyno unrhyw ymholiadau am weithrediad y Cynllun at y Swyddog Iaith:

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr,
Swyddfeydd y Cyngor

Cyngor Sir Ynys Môn,
Llangefni,
LL77 7TW.
Rhif ffôn: (01248 752561)
E bost: cwoce@ynysmon.gov.uk

### 1.2. Trefniadau Adrodd a Monitro

Yn ei Gynllun Iaith, mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu ei weithrediad gan gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'w Bwyllgor Gwaith ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Adroddiad Monitro hwn am y cyfnod 1 Ebrill, 2009 i 31 Mawrth, 2010 ac wedi ei seilio ar drefniadau adrodd diwygiedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad gan Fwrdd yr Iaith ac adroddir ar y rhain yn nghorff yr adroddiad.

## 2. CYDYMFFURFIO A'R CYNLLUN

Dan y pennawd hwn, mae Bwrdd yr Iaith yn gofyn i'r Cyngor Sir fabwysiadu rhaglen waith ac ynddi dargedau mesuradwy gogyfer cydymffurfio gyda gofynion y Cynllun Iaith. Gweler yr amserlen hon fel Atodiad 1 o'r adroddiad.

Mae Grwp Tasg Iaith y Cyngor Sir wedi mabwysiadu'r rhaglen waith hon a'i gyfrifoldeb yw monitro cynnydd yn erbyn targedau.

### 2.1. Gwasanaethau Rheng Flaen

Mae'r darn hwn o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y maes Gofal Cwsmer a rhyngwyneb cyhoeddus y Cyngor.

Mae agenda lefel uchel y Cynulliad 'Gwella Mynediad i Wasanaethau Cyhoeddus' yn pwysleisio'r angen i gyrff cyhoeddus wella ansawdd eu gwasanaethau i'w cwsmeriaid gan eu teilwrio fwy i'w hanghenion. Un o'r citeria i'w cyflawni yw sicrhau dewis iaith ac o'r ystadegau isod gwelir fod staff derbynfeydd y Cyngor Sir yn ddwyieithog, ac o'r herwydd, yn gallu cynnig y dewis iaith yma. Mae'r sefyllfa yma yn golygu nad oes angen marchnata'r ddarpariaeth ddwyieithog yn fwriadus i'r un graddau â mewn rhai mannau yng Nghymru gan fod dwyieithrwydd wedi cael ei

normaleiddio a'i brif lifo i ddarpariaeth gwasanaeth ers blynyddoedd bellach.

Yma, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad isod gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen sef:

**DIG2 – Nifer a % swyddi'r dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lenwyd gan staff dwyieithog.**

Mae ystadegau'r Cyngor Sir gogyfer y dangosydd hwn fel a ganlyn:

| Lleoliad | Nifer staff dwyieithog | Nifer y staff di-Gymraeg |
|---|---|---|
| Prif dderbynfa | 2 | Dim |
| Swyddfa Arian Mân | 5 | Dim |
| 4 Canolfan Hamdden | 9 | Dim |
| Parc Mownt | 2 | Dim |
| Oriel Ynys Môn | 1 | Dim |

Fe gyflwynwyd yr ystadegau uchod yn Adroddiadau Monitro 2006-7, 2007-8, 2008-9 ac mae'r Cyngor Sir yn eu hail gyflwyno gan nad oes newid yn y sefyllfa o'r blynyddoedd a fu. Mae'r swyddi hyn yn cael eu hysbysebu gyda'r gofyniad ieithyddol yn 'Cymraeg hanfodol'.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn annog sefydliadau cyhoeddus fel rhan o'u prosesau monitro, i gynnal arolygon hapwirio o'u gwasanaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith. Er mwyn gweithredu'r arfer dda hwn, ym mis Gorffennaf, 2010, comisiynodd y Cyngor Sir arolwg siopwr cudd o'r ddarpariaeth lllinell flaen cyfrwng Cymraeg Gorffennaf, 2010 a roddir ganddo i'r cyhoedd trwy gyfrwng galwadau ffôn, ebyst a llythyrau. Gellir dehongli o'r ystadegau fod ymateb y Cyngor Sir i ymholiadau cyfrwng Cymraeg yn gadarnhaol ar y cyfan. Serch hynny, bydd y wybodaeth yn derbyn sylw manylach gan y Grwp Tasg Iaith gyda'r bwriad o gryfhau'r ddarpariaeth ymhellach. Isod ceir dadansoddiad o'r arolwg:

**Canlyniadau Ymarfer Siopwr Cudd**

| Dull cysylltu | Nifer cysylltiadau | Iaith ymateb | | | Heb ymateb | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dwyieith-og | Saesneg | Cymraeg | | |
| Galwadau Ffôn | 29 | 15 | 3 | 11 | 0 | Dim ond 3 galwad gafwyd ble roedd y cyfarchiad yn Saesneg yn unig. O'r 3 yma cafwyd 2 ymddiheuriad nad oeddent yn siarad Cymraeg. Yn yr achos arall roedd y sawl a atebodd y ffôn yn gallu'r Gymraeg ac wedi parhau a gweddill y sgwrs yn Gymraeg. |
| Gwasanaeth E-byst | 28 | 5 | 2 | 18 | 3 | Roedd safon y Gymraeg yn dderbyniol a syml ym mhob ymateb. O'r 3 ymateb Saesneg roedd un yn ymddiheuro am beidio ag ateb yn Gymraeg tra nad oedd y llall yn cynnwys ymddiheuriad. O'r 3 esiampl o ddeunyddiau atodol roedd 2 yn Saesneg ac 1 yn Gymraeg. Roedd y 5 ymateb awtomatig yn ddwyieithog. |
| Gwasanaeth Llythyrau Ysgrifenedig | 33 | 1 | 1 | 23 | 8 | Roedd safon y Gymraeg yn dderbyniol a syml ym mhob ymateb. Roedd rhan helaeth y defnyddiau cyhoeddusrwydd a dderbyniwyd yn ddwyieithog gyda'r dogfennau safonol oedd wedi eu creu yn ganolog i gyd yn ddwyieithog. |
| ***Cyf.*** | **90** | **21** | **6** | **52** | **11** | |

## 2.2. **Gwasanaethau Iaith Gymraeg**

Yn ogystal, canolbwyntir ar safon y gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarperir gan y Cyngor Sir trwy adrodd ar y dangosydd perfformiad isod sef:

**DIG6 – Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.**

Mae'r Cyngor Sir ar 31 Mai, 2007 wedi mabwysiadu strwythur diwygiedig gogyfer ei bwyllgorau ac fel rhan o'r trefniadau craffu newydd, sefydlwyd

Is-Bwyllgor Canolbwyntio ar y Cwsmer.  Mae proses newydd o gasglu data ar draws y gwasanaethau gogyfer dangosydd DIG6 wedi'i sefydlu ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i'r Is-Bwyllgor Cwynion a Chanmoliaeth am ei sylwadaeth.

Adroddwyd y llynedd fod y  Cyngor Sir yn ogystal wedi mabwysiadu Trefn Gwynion Corfforaethol ddiwygiedig o 1 Mehefin, 2009 sy'n sicrhau fod y drefn o adrodd ar gwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi cael ei ymgorffori i'r drefn gorfforaethol o adrodd ar gwynion.  Mae swyddog dynodedig yn gweithredu fel Swyddog Gofal Cwmser corfforaethol gan gydgordio'r ochr weinyddol o'r broses a sicrhau cysondeb yn y drefn. Gellir adrodd bellach fod y gyfundrefn hon yn gweithio'n llwyddiannus ac ei bod yn enghraifft o ymgais i brif lifo'r Gymraeg i gyfundrefn gorfforaethol. Adlewyrchir hyn yn y dyfarniad o 'gydymffurfiaeth llawn' a dderbyniwyd mewn arolwg gan Fwrdd yr Iaith yn ystod 2008/9 pryd y nodwyd fod y sefydliad yn cynnig gwasanaeth o safon uchel i'r cyhoedd sy'n dymuno cwyno.
Yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw, derbyniodd y Cyngor Sir  2  gwyn mewn perthynas a'i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac fe ymdriniwyd â'r cwynion hyn yn unol â'r  drefn gorfforaethol o ddelio gyda chwynion.  Isod ceir amlinelliad o natur y 2 gwyn a dderbyniwyd.

| | |
|---|---|
| Cwyn 1 | Derbyniwyd cwyn gan achwynydd yn cwyno nad oedd wedi derbyn gohebiaeth cyfrwng Cymraeg er fod yr ohebiaeth a dderbyniodd y Cyngor Sir dros gyfnod o flynyddoedd trwy gyfrwng y Saesneg.<br>Camau cywirio - anfonwyd gohebiaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â dymuniad y cwsmer. |
| Cwyn 2 | Cwyn am wasanaeth penodol a hefyd nad oedd gohebiaeth cyfrwng Cymraeg er fod yr achwynydd wedi dechrau'r gwyn yn y Saesneg.<br>Camau cywiro  -  O hynny ymlaen bu'r ohebiaeth rhwng y Cyngor a'r achwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. |

### 2.3. **Gwerthusiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb**

Ym mis Chwefror, 2010 derbyniodd y Cyngor Sir adroddiad gan ymgynghorydd annibynnol ar ran Bwrdd yr Iaith yn gwerthuso safon y gwasanaeth dwyieithog a ddarperir trwy gyfrwng y wefan.  Nodwyd fod y dewis Cymraeg yn amlwg ar y dudalen flaen o'r wefan ac mae'r holl

wasanaeth ar gael yn y ddwy iaith **(ac eithrio'r Porth Cynllunio sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor Sir**). Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg mewn perthynas â'r maes hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygu'r wefan yn y bennod ar Brif Ffrydio (5.2.3. (iii)).

Yn ystod y gwanwyn, 2010 cynhaliodd Bwrdd yr Iaith ymaferiad gwirio ar ffurflenni a gwybodaeth gyffredinol Etholiad Cyffredinol 2010. Hysbyswyd y Cyngor Sir ei fod wedi llwyddo i gwrdd â gofynion ei Gynllun Iaith Gymraeg yn y maes hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth gyffredinol ar yr Etholiad (testun ar wefan y Cyngor)** | Roedd cynnwys y wefan, ar y tudalennau oedd yn ymwneud â'r Etholiad yn benodol, yn ddwyieithog. |
| **Ffurflen gofrestru** | Dwyieithog |
| **Ffurflen gofrestru am bleidlais bost** | Dwyieithog |
| **Ffurflen gofrestru am bleidlais drwy ddirprwy** | Dim gwybodaeth ar gael, yn Gymraeg na Saesneg |
| **Hysbysiad o Etholiad/Gwybodaeth am ymgeiswyr** | Dwyieithog |

## 3. RHEOLAETH A GWEINYDDIAD Y CYNLLUN

### 3.1. Asesu Risg yn y Maes Sgiliau – Adrodd ar Gynnydd

Cynhaliwyd Asesiad Risg Sgiliau ar Gyngor Sir Ynys Môn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 9 Mai, 2007 a thra adnabuwyd rhai arferion da o fewn y sefydliad, gwnaethpwyd rhai argymhellion gogyfer gwella. Cyhoeddwyd y tabl isod, sy'n crynhoi sylwadau'r Asesiad Risg yn Adroddiad Monitro 2006-7. Yn adroddiad eleni ceir colofn ychwanegol sy'n dangos cynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/10 fel a ganlyn:

| Maes Ffocws | Arfer Dda | Argymhelliad gogyfer gwella | Cynnydd 2007/8 | Cynnydd 2008/9 | Cynnydd 2009/10 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am y maes sgiliau dwyieithog** | | Cyflwyno data ar lefelau sgiliau iaith yn flynyddol i'r Grwp Tasg Iaith. | Trefniadau i adrodd ym mis Medi, 2008 | Defnyddio data Medi, 2008 gogyfer Adroddiad Monitro 2008/9 trwy gytundeb gyda Bwrdd yr Iaith. | Cynhaliwyd Arolwg Sgiliau Iaith gan anfon ffurflen i'w cwblhau i bob aelod o staff ym mis Ebrill, 2010. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **System cofnodi gwybodaeth am sgiliau dwyieithog** | Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn croesawu'r gwaith o gasglu data manwl ar lefelau sgiliau iaith y gweithlu drwy gynnal arolwg sgiliau.<br><br>Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydnabod gwaith da Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor mewn perthynas â sgiliau iaith. | Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn disgwyl i'r Cyngor Sir adrodd yn llawn ar y dangosydd iaith ar sgiliau (DIG5) yn Adroddiad Monitro 2007/8 a gofynnir i'r Cyngor Sir sicrhau fod trefniadau casglu a chofnodi data ar sgiliau iaith mewn lle. | Mae holiadur gogyfer cynnal Arolwg Sgiliau wedi cael ei anfon allan gan y Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaethau Canolog, i'w gwblhau gan y Rheolwyr Llinell ym mhob Adain Gwasanaeth, Gorffennaf, 2008. | Arolwg Sgiliau wedi'i gwblhau yn ystod 2008. Angen sefydlu proses gogyfer cadw'r data'n gyfredol. | Addaswyd y meddalwedd adnoddau dynol 'Compel' i gofnodi'r wybodaeth am sgiliau iaith y gweithlu. |
| **Monitro lefelau sgiliau, datblygiad a lleoliad staff** | Bwrdd yr Iaith yn croesawu datblygiad y fframwaith cymwyseddau arfaethedig fel teclyn defnyddiol ar gyfer hyrwyddo a thargedu hyfforddiant iaith Gymraeg. | Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn awyddus i weld y gwaith o ddatblygu Strategaeth Sgiliau Iaith, sydd ar y gweill, yn cael ei gwblhau cyn diwedd 2007. | Anelir i gael y Strategaeth Sgiliau mewn lle erbyn Chwefror, 2009. | Mae llithriad yn erbyn y pennawd hwn. | Mae'r gwaith o ddrafftio'r Strategaeth Sgiliau wedi cychwyn ers Mai, 2010 ond i'w gwblhau bydd angen cynnwys deilliannau'r Arolwg Sgiliau. |
| **Arloesi a chydweithio er mwyn gwella capasiti dwyieithog** | Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn croesawu ymdrechion y Cyngor i geisio denu mwy o swyddogion ifanc lleol dwyieithog i weithio i'r Awdurdod.<br><br>Cynllun Hyfforddeion yn cyfrannu at y nod. | Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymhell fod y Cyngor yn meithrin perthynas gyda'r Ganolfan Iaith ym Mhrifysgol Bangor gyda'r maes Cymraeg i Oedolion. | Cyngor Sir yn parhau i feithrin perthynas gyda'r Ganolfan Iaith ym Mhrifysgol Bangor trwy'r Fforwm Iaith Sirol.<br><br>Cynllun Hyfforddeion yn parhau eto eleni. | Cyngor Sir/Fenter Iaith mewn trafodaethau gyda Bwrdd yr Iaith ynglyn â ail wampio'r Fforwm Iaith i'w gwneud yn fwy strategol o ran ffocws.<br><br>Cynllun Hyfforddeion yn parhau eto eleni. | Cynhaliwyd trafodaeth gyda Bwrdd yr Iaith ar 23/6/10 gogyfer ail wampio'r Fforwm Iaith i'w gael yn weithredol gogyfer Ebrill, 2010. Hyn yn fwy o flaenoriaeth gan fod Fforwm Dwyieithrwydd Gogledd Cymru bellach wedi'i ddiddymu.<br><br>Cynllun Hyfforddeion ddim yn parhau eleni oherwydd y rhaglen arbedion effeithlonrwydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y broses weinyddol wrth recriwtio, cadw, hyfforddi neu gyfnewid staff** | | Angen i'r Cyngor Sir godi ymwybyddiaeth rheolwyr o'u cyfrifoldebau am gasglu a chofnodi data am sgiliau iaith staff. | Mae hyn yn digwydd gyda'r Arolwg Sgiliau. | Grwp Tasg Iaith angen trafodaeth am y dull mwyaf effeithiol o ddiweddaru'r data yn flynyddol. | Meddalwedd 'Compel' o gymorth i gyflawni hyn. |
| **Risgiau o ran adnoddau** | Penodiad Tiwtor Iaith i'r Cyngor Sir. | | Penodiad wedi ei wneud. | Deilydd y swydd yn ymgymryd a'i rôl. | Deilydd y swydd yn parhau yn y rôl ac yn datblygu'r ddarpariaeth i gwrdd ag anghenion y sefydliad. |
| **Risgiau o ran cyd-destun e.e. methu darparu gwasanaethau allweddol ar lafar drwy'r Gymraeg** | | Dylai'r Cyngor Sir sicrhau fod cwynion yn cael eu cofnodi mewn un lle canolog.<br><br>Dylai'r Cyngor Sir ystyried dulliau o gysylltu gyda'r cyhoedd i holi barn am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.<br><br>Dylai'r Cyngor ystyried y manteision o gomisiynu arolwg neu ymarferiad 'siopwr cudd' o bryd i'w gilydd. | Hyn eisoes yn digwydd.<br><br>Trafodaethau wedi cychwyn ynglyn â chynnal arolwg barn.<br><br>Briff drafft yn cael ei baratoi gogyfer comisiynu'r gwaith hwn. | Gweler paragraff 2.2.<br><br>Bydd yr elfen hon yn derbyn sylw yn ystod y drafodaeth ehangach am sefydlu Arolwg Blynyddol neu Banel Dinasyddion.<br><br>Trefniadau ar y gweill i gynnal ymarferiad 'siopwr cudd' ym Medi, 2009. | Trefn corfforaethol ar gyfer delio a chwynion, gan gynnwys cwynion iaith yn weithredol.<br><br>Bydd deilliannau'r ymarferiad Siopwr Cudd ar gael ym mis Medi, 2010. |

### 3.2.1. **Cyrff Trydydd Parti – y Gymraeg mewn Cytundebau**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad a ganlyn sy'n rhoi pwyslais ar weithio drwy bartneriaeth gogyfer darparu gwasanaeth cyfansawdd dwyieithog i'r cwmser.

**WLI 1 – nifer a % y cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod gan ystyried:**
**(i) Contractau Gofal Cymdeithasol**
**(ii) Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc**
**(iii) Contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol**

Mewn perthynas â (ii) a (iii) o'r dangosydd ceir adroddiad cynnydd gan swyddog arweiniol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar y broses o fonitro 'r contractau gyda'r cyrff sy'n derbyn cyllid 'Cymorth' trwy law y Bartneriaeth (gweler Atodiad 2).

Mewn perthynas â Chontractau Gofal Cymdeithasol, mae cynnwys Adroddiad Monitro 2008/9 yn parhau'n berthnasol gyda'r cytundeb ansawdd a ddefnyddir yn y maes gwasanaeth gofal preswyl/nyrsio wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor.

Mae capasiti monitro o fewn yr Uned Cefnogi Busnes yn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gryfhau yn ystod 2009/10. Mae hyn wedi galluogi'r adran i gychwyn a datblygu fframweithiau a phrosesau monitro iaith sylfaenol a rhagweithiol. Gellir casglu tystiolaeth trwy gofnodion monitro chwarterol a blynyddol. Mae'r cofnodion monitro yn y broses o gael eu dadansoddi a'u mewnbynnu ar feddalwedd priodol er mwyn coladu'r wybodaeth. Bydd y wybodaeth yma ar gael fel atodiad i Adroddiad Monitro 2010/11.

Mae fframwaith contractau sy'n seiliedig ar ganlyniadau wedi cael ei weithredu ar draws yr holl fuddsoddiadau sector wirfoddol. Mae'r dull hwn o weithredu yn parhau i ddatblygu mewn modd sy'n parchu daliadau a chanlyniadau'r sefydliadau unigol yn ogystal â'r Awdurdod Lleol. Bydd gweithredu'r fframwaith hon yn broses raddol ar draws yr holl gytundebau trydydd sector.

Mae fframwaith diwygiedig sy'n sail i'r Cytundeb Ansawdd ar gyfer gofal preswyl/nyrsio wedi cael ei ddatblygu er mwyn cael/cadw aelodaeth o'r Cynllun ac i ddenu y ffioedd dan y Cytundeb Ansawdd a delir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r Adran ar hyn o bryd yn y broses o rannu'r ddogfen ymysg y cartrefi preswyl/nyrsio gyda'r bwriad i dderbyn ymatebion erbyn 21 Mai, 2010. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei ddarparu fel tystiolaeth ac yn cael ei gynnwys fel atodiad i Adroddiad Monitro 2010/11.

Nodwyd yn Adroddiad Monitro 2008/9 y bwriedir cynnal rhaglen dreigl o fonitro contractau. Gogyfer Adroddiad Monitro 2009/10 edrychwyd ar allbwn ymarfer monitro contractau gyda'r sector wirfoddol o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Samplwyd 10 (50%) adroddiad data gweithgaredd blynyddol (09/10) a 10 (50%) data gweithgaredd chwarterol (Ionawr-Mawrth, 2010). Er mwyn sicrhau darlun cywir o'r sampl hwn bydd y gwasanaeth yn cysylltu gyda'r cyrff perthnasol yn fuan i gadarnhau

unrhyw anghysondebau/fylchau mewn gwybodaeth. Y bwriad yw crynhoi ffrwyth y samplo hyn a'i ymgorffori i Adroddiad Monitro 2010/11.

### 3.2.2. **Nawdd, Grantiau a Swyddogaethau Statudol**

Yn ystod gwanwyn 2009 fe dderbyniwyd 80 o geisiadau am grantiau gan gyrff gwirfoddol. Hapwiriwyd ymateb 22% o'r 41 o'r rhai hynny a argymhellwyd i'r Panel Grantiau eu cymeradwyo yn erbyn y cwestiwn canlynol:

***Amlinellwch isod sut y byddwch yn defnyddio'r Grant i sicrhau gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd?. Gall gynnwys eich gwasanaethau (a chyfarfodydd) wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn, deunydd printiedig, arwyddion a thudalennau gwefan er enghraifft.***

Oherwydd cyfyngiadau amser ni fu'n bosibl cwblhau'r hapwiriad rhwng y cyfnod pryd roedd y swyddogion gweinyddu yn penderfynu ar eu hargymhellion i'r Panel Grantiau a chyfarfod y Panel Grantiau. Mae trefniadau mewn llaw i sicrhau y bydd yr hapwirio yn cael ei gwblhau o fewn y cyfnod hwn eleni.

Tra roedd yr ymatebion a hapwiriwyd a'r amodau a roddwyd i'r cyrff gwirfoddol yn amrywio, gellir adrodd fod ei bod yn gadarnhaol fod dogfen ddefnyddiol wrth law ar gyfer trafodaeth am y broses i'r swyddogion gweinyddu grantiau cyn i'r broses asesu derfynol ddigwydd am eleni.

Bydd y Cyngor Sir yn edrych ar y grantiau eraill a weinyddir yn ystod y flwyddyn i ddod ac adroddir ar ganlyniadau'r hapwirio pellach yn ystod y cyfnod adrodd 2010/11.

## 4. DIGONOLRWYDD SGILIAU IAITH GYMRAEG

### 4.1 Sgiliau Iaith Gymraeg – Staffio

Dan y pennawd hwn, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod:

| |
|---|
| **DIG5 – nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgol)**<br>**- fesul adran wasanaeth**<br>**- yn ôl gradd y swydd** |

| | |
|---|---|
| - | **fesul gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd ardal).** |

I bwrpas adrodd ar y dangosydd, fe gynhaliwyd Arolwg Sgiliau ar draws y gweithlu er mwyn cael gwaelodlin o'r sgiliau ieithyddol o fewn y sefydliad. Paratowyd ffurflen asesiad iaith gan ddefnyddio'r templed safonol gan Fwrdd yr Iaith yn ei Gyngor 'Recriwtio a'r Iaith Gymraeg'. Gofynnwyd i'r ffurflenni asesiad iaith gael eu cwblhau gan bob aelod o staff dan oruchwyliaeth y rheolwyr llinell ac yna fe aethpwyd ati osod y wybodaeth ar y meddalwedd adnoddau dynol 'Compel'. Isod ceir dadansoddiad o'r canran o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y 5 adran. Gan fod hon yn dasg sylweddol barhaus, nid yw'r ffurflenni i gyd wedi cael eu dychwelyd. Dangosir y canran dychweliadau cyfredol yn erbyn pob adran.

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| 0 | Dim Sgilliau |
| 1 | Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd) |
| 2 | Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith |
| 3 | Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol |
| 4 | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg |
| 5 | Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen |

**Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr (canran dychweliadau – 90%)**

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **%** | 0% | 3% | 3% | 0% | 6.1% | 87.9% |

**Adran Gyllid (canran dychweliadau – 97%)**

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **%** | 2.6% | 6.1% | 4.4% | 4.4% | 11.4% | 71.1% |

**Adran Addysg a Hamdden (canran dychweliadau – 76%)**

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **%** | 1.9% | 7.4% | 3.7% | 6.8% | 19.1% | 61.1% |

**Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol (canran dychweliadau – 45%)**

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **%** | 4.6% | 6.1% | 5.2% | 7.3% | 17.9% | 59% |

**Adran Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol (canran dychweliadau – 90%)**

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **%** | 1.2% | 9.1% | 1.6% | 2% | 12.6% | 73.5% |

Mae ystadegau manylach ar gael o'r broses a bydd y rhain yn cael eu trafod yn y Grwp Tasg Iaith er mwyn eu dadansoddi'n ymhellach. Bydd yr ystadegau yn sail i'r Cyngor Sir gynllunio'r gweithlu i'r dyfodol a thargedu hyfforddiant gyda chymorth y Tiwtor Iaith. Yn ogystal, bydd y wybodaeth o gymorth i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y sefydliad.

Mae Strategaeth Sgiliau yn y broses o gael ei draffio a bydd yn gosod cyfeiriad strategol i sicrhau y bydd y staff a gyflogir gan y Cyngor Sir ar hyn o bryd ac i'r dyfodol gyda'r sgiliau i wasanaethu'r cyhoedd yn ddwyieithog a thrwy hynny yn sicrhau cydraddoldeb iaith. Mae'r Cyngor Sir yn diweddaru Bwrdd yr Iaith ar gynnydd datblygu'r Strategaeth Sgiliau ar hyn o bryd.

## 4.2. **Sgiliau Iaith Gymraeg - Hyfforddiant**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod sy'n canolbwyntio ar y maes adnoddau dynol a datblygiad sgiliau ieithyddol er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cwsmer.

| |
|---|
| **DIG4 – Adnoddau Dynol – sgiliau**<br>**(a) nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.**<br>**(b) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.** |

Isod darperir gwybodaeth am y niferoedd a fynychodd y gwahanol lefelau o gymhwyster hyfforddiant iaith a gynigir am y cyfnod adrodd:

| Cymhwyster | Nifer |
|---|---|
| Credydau Mynediad RHCAG – Lefel 1 | 7 |
| Arholiad Mynediad CBAC – Lefel 2 | 13 |
| Credydau Sylfaen RHCAG – Lefel 3 | 8 |
| Credydau Uwch RHAG – Lefel Uwch | 8 |
| Gloywi Iaith | 13 |
| **CYFANSWM** | **49** |

O safbwynt darpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, mae'r Cyngor Sir yn y broses o ddarparu cynllun ymwybyddiaeth iaith gogyfer y Tim Plant o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a cheir rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn dan bwynt 5.2.1. yn yr adroddiad hwn. Rhagwelir y bydd oddeutu 60 o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith dan y cynllun hwn. Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir yn darparu elfen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith dan y Cynllun Anwytho Staff ac yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw derbyniodd 53 o staff y ddarpariaeth.

Darperir cyfran helaeth o'r hyfforddiant gan Diwtor Iaith y Cyngor Sir a chan ei bod bellach yn gyfarwydd â'r sefydliad gall deilwra hyfforddiant i gwrdd â gofynion unigolion/gwasanaethau yn ôl y gofyn. Yn ogystal â'r hyfforddiant a ddarperir gan y Tiwtor Iaith, mae'r Cyngor Sir hefyd yn darparu hyfforddiant gloywi iaith i staff i gynyddu eu hyder i ddrafftio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn y broses cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y sefydliad. Mae'r maes gloywi iaith yn un enghraifft o'r Cyngor Sir yn gweithio'n draws sectorol yn y maes hyfforddiant a datblygu sgiliau wrth gyd-lynu a threfnu cwrs Gloywi Iaith ar gyfer staff y sefydliad a sefydliadau eraill megis, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad, Cyngor Conwy, Cyngor Gwynedd a'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhagwelir i'r dyfodol y bydd angen efallai ymestyn y dull hwn o weithio yn yr hinsawdd economaidd presennol er mwyn cael gwerth am arian.

## 5. PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio prif ffrydio fel yr angen i ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o waith y sefydliad. Golyga hyn gymryd pob cyfle i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru ddwyieithog a chynllunio a darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn 'annog prif-ffrydio materion yn ymwneud â'r Gymraeg o fewn….llywodraeth leol'. Nodir yn ogystal fod angen i 'egwyddorion prif ffrydio fod yn sail i'r gwaith o wneud polisi a darparu gwasanaethau ar draws holl gyfrifoldebau cyrff o'r fath.'

Isod ceir rhai enghreifftiau o sut mae'r Cyngor Sir yn ceisio prif ffrydio'r Gymraeg.

## 5.1. Hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cynlluniau Strategol

### 5.1.1. Cynllun Cymunedol

Yn sgil cyhoeddi Canllawiau Terfynol y Cynulliad ar Gynllunio Cymunedol (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009), bydd y Cyngor Sir yn bwrw'n 'mlaen gyda'r gwaith o adolygu ei Gynllun Cymunedol. Yn dilyn proses o ymgynghori ar flaenoriaethau bydd dogfen ymgynghorol yn cael ei pharatoi gyda Chynllun Gweithredu a fydd yn cynnwys targedau penodol gogyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bwriedir cynnal cyfres o Asesiadau Effaith ar y Cynllun Cymunedol drafft ac fe ystyrir trwy'r broses hon os oes sylw digonol wedi cael ei roi i'r Gymraeg o fewn y Cynllun Cymunedol.

Bydd y Cyngor Sir, wrth reswm yn rhoi pob ystyriaeth i weithredu argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei Ganllaw arfaethedig ar ddatblygu'r Gymraeg yn y maes Cynllunio Cymunedol.

### 5.1.2. Amcanion Strategol/Cynllun Corfforaethol

Nododd yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyngor Sir fod angen i'r Cyngor Sir ganolbwyntio llawer iawn mwy ar gyfeiriad strategol a phennu ei flaenoriaethau. Aethpwyd ati i lunio 5 blaenoriaeth strategol a gefnogir gan nifer o amcanion gweithredol ac fe ymgynghorwyd yn eang arnynt gyda chymunedau lleol a staff y Cyngor Sir. Mae blaenoriaeth strategol 3 fel a ganlyn:

***'Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy'***

Cefnogir y flaenoriaeth hon gyda 6 amcan gweithredol gan gynnwys yr un penodol a ganlyn ar yr iaith Gymraeg sef:

***'Diogelu a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth'***

Mabwysiadwyd y blaenoriaethau strategol newydd gan aelodau'r Cyngor Llawn ar 4 Mawrth, 2010 a rhagwelir y byddant yn rhoi pwrpas a ffocws newydd i'r Awdurdod. Byddant yn cael eu rhaeadru i lawr i gynlluniau busnes a thargedau ac o'r herwydd mae hyn yn ddull efffeithiol o sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei phrif lifo ar lefel strategol.

### 5.1.3. Cynllun Plant a Phobl Ifanc

Bydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn yn cael ei ail lansio yn ei gwedd newydd ym Medi 2010. O fewn y strwythur newydd bydd 4 grwp thematig gan gynnwys 1 grŵp penodol a fydd yn canolbwyntio ar ddiwylliant a dwyieithrwydd. Bydd y grŵp a fydd yn yn canolbwyntio ar ddiwylliant a dwyieithrwydd yn hyrwyddo'r iaith , rhannu ymarfer da ac yn monitro y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn. Yn ogystal, mae'r broses o adolygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar y gweill a bydd angen cwblhau'r gwaith erbyn 1 Ebrill, 2011.

### 5.1.4**. Cynllun Datblygu Lleol**

Codwyd cwestiwn dros gadernid y Cynllun Datblygu Lleol oherwydd prinder gwaith priodol ar yr AC/AAS. Yn ogystal oherwydd bod strategaeth newydd ar gyfer yr Ynys yn cael ei ddatblygu yn seiliedig ar y cysyniad Ynys Ynni fe benderfynwyd ail lansio'r cynllun yn Hydref 2009. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r pwyslais wedi bod ar ddiweddaru'r Sail Tystiolaeth ar gyfer cyfiawnhau'r lefel o dyfiant o fewn y cynllun ar opsiynau i ddanfon y tyfiant yma. Oherwydd hyn nid yw'r grŵp asesu effaith ieithyddol wedi cyfarfod dros y flwyddyn ddiwethaf. Bwriedir ail ymgynnull y grŵp pan fydd sicrwydd dros ffigyrau tyfiant ar gael o fewn y cynllun.

### 5.1.5. **Fframwaith Asesu Integredig**

Mae'r Cyngor Sir yn parhau gyda'r broses o fireinio'r Fframwaith Asesu Integredig ar hyn o bryd gyda swyddog o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Pwrpas yr ymarferiad hwn yw i sicrhau fod:

- Y broses a'r teclynau yn gadarn, yn gynaliadwy ac yn addas i'r prif gynlluniau a'r cynlluniau llai;
- Y broses a'r teclynau yn cyflawni'r gofynion, cyn belled a phosibl o ran yr asesiadau effaith eraill e.e. Asesiad Effaith Iaith.

Bwriedir edrych ar enghreifftiau o arfer dda mewn Cynghorau Sir eraill ar y defnydd o Fframweithiau Asesu Integredig.

### 5.1.6. **Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Nodwyd yn adroddiad y llynedd fod y Cyngor Sir ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu teclyn Asesu Effaith Cydraddoldeb (drafft). Mae'r cwestiynau o fewn y teclyn wedi eu selio ar y

saith llinyn cydraddoldeb a lluniwyd y cwestiwn canlynol ar yr iaith Gymraeg:

***'A allai'r strategaeth/flaenoriaeth a'i gweithrediad gael effaith wahaniaethol ar bobl sydd â'r Gymraeg fel eu hiaith o ddewis, neu effaith ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ar Ynys Môn?'.***

Y wers bennaf a ddysgwyd wrth ddefnyddio'r teclyn hwn yw ei bod yn hanfodol cael data cefndir cadarn a pherthnasol fel sail grymus i'r ystyriaethau. Ni ddaeth neges gref i'r amlwg wrth gynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ond efallai bydd angen asesu effaith ail strwythuro'r Gwasanaeth Iechyd ar y maes dwyieithrwydd.

## 5.2. **Gwasanaethau**

### 5.2.1. **Cynllun Codi Ymwybyddiaeth Iaith Gyda'r Tim Plant, Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nodwyd yn Adroddiad Monitro 2008-9 ei bod yn fwriad gan y Cyngor Sir i gynnal rhaglen ymwybyddiaeth iaith gydag aelodau'r Tim Plant o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai'r cynllun yn cynnig cyfle i brif lifo'r Gymraeg i'r gwasanaeth trwy ddarparu'r hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ac wedyn adnabod a chwrdd ag unrhyw anghenion hyfforddiant a fyddai, o bosibl, wedi'i deilwrio o gwmpas terminoleg y gwasanaeth. Dewisiwyd y gwasanaeth hwn gan ei fod yn delio'n uniongyrchol gyda phlant (gyda nifer ohonynt mewn sefyllfaoedd bregus) lle mae cynnig dewis iaith yn eithriadol o bwysig.

Gwnaethpwyd cais am gefnogaeth ariannol gan Fwrdd yr Iaith i gynnal y prosiect dan y Cynllun 'Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog' a bu'r cais yn llwyddiannus. Bellach mae'r cynllun ar droed gyda 5 sesiwn wedi'u hamserlennu gogyfer oddeutu 60 o staff gan geisio sicrhau hyblygrwydd o ran dyddiadau mynychu gan fod rhai o'r staff yn gweithio'n rhan amser. Mae'r hyfforddiant yn orfodol a sicrhawyd cefnogaeth gan uwch reolwyr i annog staff i fynychu a chyd-gordio presenoldeb ar draws y timau.

Mae'r adborth gychwynnol wedi bod yn eithaf cadarnhaol gyda rhai unigolion yn nodi bod yr hyfforddiant wedi cael dylanwad bositif ar eu hagweddau. Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei baratoi i gefnogi'r cynllun ac mae'n hynod o bositif fod nifer o awgrymiadau adeiladol wedi cael eu

cynnig gan y staff eu hunain.  Mae hyn yn ffordd effeithiol o sicrhau perchnogaeth tymor hir i'r agenda hon o fewn yr uned.    Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith dan feini prawf y Cynllun 'Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog'.

Bydd modd asesu effaith y cynllun hwn ar y gwasanaeth dros amser trwy fesur y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn weinyddol ac mewn cyfarfodydd.  Pe bai'r cynllun yn llwyddiant gellir ei atgynhyrchu gyda gwasanaethau eraill a byddai hyn yn fodd o hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ngweinyddiaeth fewnol y Cyngor Sir.

### 5.2.3. **Technoleg Gwybodaeth**

Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad Technoleg Gwybodaeth yn yn yr awyrgylch waith fodern i hyrwyddo a phrif lifo'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y gweithlu a chynyddu effeithlonrwydd y sefydliad.   Mae'r cysyniad hwn yn arbennig o wir yn yr hinsawdd economaidd presennol lle mae'r esgid yn gwasgu ar gyrff cyhoeddus a rhaid arloesi gyda dulliau amgen o weithio drwy fanteisio ar y datblygiadau technolegol diweddaraf.  I hyrwyddo'r broses, byddai o fantais i gynnal gwerthusiad o'r arferion da sy'n bodoli ar draws y sefydliadau yng Nghymru er mwyn adnabod cyfleon i ddatblygu systemau ar y cyd/dyblygu yr hyn sy'n gweithio'n effeithiol.

Isod ceir nifer o enghreifftiau cadarnhaol o'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth o fewn y Cyngor Sir:

#### (i) **Côf Cyfieithu**

Nodwyd yn Adroddiad Monitro 2008/9 fod trafodaethau wedi cymryd lle i drafod y priodoldeb o fuddsoddi mewn pecyn meddalwedd Côf Cyfieithu a fyddai o gymorth i'r Adain Gyfieithu gogyfer osgoi dyblygu a chyfrannu at effeithlonrwydd.  Yn dilyn proses o arfarnu a threialu pecynnau, gellir adrodd fod y Cyngor Sir bellach wedi prynu'r pecyn meddalwedd 'Trados'. Mae 8 o drwyddedi ar gyfer defnyddio'r pecyn wedi cael eu prynu a bydd y rhain yn cael eu rhannu rhwng staff yr Adain Gyfieithu, aelod o'r Uned Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, aelod o staff o wasanaeth fydd yn rhedeg cynllun peilot a gweinyddydd.   Bydd modd arfarnu gwerth y buddsoddiad trwy gadw ystadegau o'r testun a osodir ar y meddalwedd a thrwy hynny, y lleihad yn y nifer o adroddiadau cyffelyb a gyfieithir yn gyson.

(ii) **Rhyngwyneb Dwyieithog**

Adroddwyd y llynedd fod y Cyngor yn bwriadu cynnal cynllun peilot ar gyfer darparu’r rhyngwyneb dwyieithog gogyfer ‘Windows’ . Mae’r paratoadau ar droed o fewn yr Uned Technoleg Gwybodaeth i redeg cynllun peilot trwy gynnig yr opsiwn o ryngwyneb dwyieithog i aelodau o’r gweithlu sy’n derbyn cyfrifiaduron newydd. Byddwn yn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau yn adroddiad monitro 2010/11.

(iii) **Safle Gwe**

Y wefan bellach yw un o brif ddulliau cyfathrebu'r Cyngor gyda thrigolion y Sir ac mae’r wasanaeth ar gael yn y ddwy iaith gyda’r feddalwedd yn ei gwneud hi’n amhosibl i unrhyw un osod darn o wybodaeth ar y safle heb sicrhau fod yr union wybodaeth honno wedi ei llwytho yn y Gymraeg hefyd. Er bod cyllid llywodraeth leol yn brin y mae’r buddsoddiad yn y wefan yn debygol o barhau ar lefel fydd yn galluogi gwasanaethau newydd a mwy rhyngweithiol i gael eu cyflwyno a hynny gan fod y Cyngor yn rhoi pwyslais sylweddol ar y wefan fel dull o gyfathrebu gyda’r trigolion.

Yn 2009 dechreuodd swyddogion cefnogi’r wefan gasglu gwybodaeth am y defnydd. Mae nifer y Golygfeydd Tudalen Cymraeg, sef y nifer o weithiau y mae tudalen benodol yn cael ei llawrlwytho yn 330,869 mewn cymhariaeth â 1,659,571 yn y Saesneg. Mae 214,520 o Sesiynau Defnyddwyr Cymraeg, sef un ymweliad â’r safle, wedi’u cofnodi gyda 497,273 yn y Saesneg. Yn olaf, mae nifer y Defnyddwyr Unigryw Cymraeg, sef nifer yr ISPs a gofnodwyd yn ymweld â'r safle, yn 51,206 mewn cymhariaeth â 236,268 yn y Saesneg.

Cyflwynwyd ffigurau hefyd am y niferoedd sy’n llwytho ffurflenni’r Cyngor (2009):

| Ffurflen | Cyfanswm | Saesneg | Cymraeg | Y Gymraeg fel % o’r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ffurflen Rhybudd Adeiladu | 141 | 128 | 13 | **9%** |
| Ffurflen Gais Cerdyn Bws Consesiynol | 91 | 88 | 3 | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ffurflen Gais y Gist Gymunedol | 7 | 2 | 5 | **71%** |
| Ffurflen Gais am Swydd | 960 | 505 | 455 | **47%** |
| Ffurflen y Gronfa Fuddsoddi Lleol | 20 | 18 | 2 | **10%** |
| Ffurflen Debyd Uniongyrchol Treth y Cyngor | 31 | 28 | 3 | **10%** |
| **CYFANSWM** | **1250** | **769** | **481** | **38%** |

Mae 38% o'r holl ffurflenni a lwythwyd i lawr yn rhai Cymraeg. Mae hyn yn is na chanran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg ym Môn yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2001 ond eto'n awgrymu bod canran o 38% yn hyderus i ddelio gyda'r Cyngor ar bapur trwy'r iaith. Yn atodol i hyn, mae'n ddiddorol iawn bod bron i hanner y nifer, sef 455 o unigolion, sy'n llwytho ffurflenni cais am swydd i lawr yn gwneud hynny'n Gymraeg sy'n profi ymwybyddiaeth gref o fanteision yr iaith mewn cyd-destun ceisio am waith.

Prif ffrydir y wefan i holl waith y Cyngor ac fe'i hyrwyddir yn y papur cymunedol a ddosberthir i bob cartref ac ar lenyddiaeth boed hynny'n ffurflen am dreth y cyngor, addysg neu unrhyw wasanaeth arall. Y mae holl hysbysebion allanol y Cyngor hefyd yn cyfeirio at y wefan.

(iv) **E Ffurflenni**

Mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol Ynys Môn fel rhan o'i Gytundeb Datblygu Ardal yn canolbwyntio ar y maes cynhwysiad cymdeithasol. I gefnogi'r maes, mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol wedi buddsoddi mewn pecyn ffurflenni 'e budd-daliadau' i hyrwyddo mynediad gwasanaethau i'r cyhoedd ac ar yr un pryd i gynyddu cyfathrebu rhwng rhan-ddeiliaid. Mae'r pecyn yn galluogi'r cyhoedd i wneud ceisiadau am fudd-daliadau mewn sawl ffordd megis:

- wyneb yn wyneb
- mewn swyddfeydd rhai o'r rhan-ddeiliaid
- dros y ffôn

- mewn cartrefi
- ar wefan y Cyngor Sir

Daethpwyd i gytundeb gyda'r darparwr, Victoria Forms cyn ymrwymo i'r pryniant y byddai angen i'r system fod yn ddwyieithog ac er mwyn sicrhau hynny, cyfieithwyd rhai tudalennau cynnwys gan y Cyngor. Mae'r system wedi cael ei ddatblygu ymhellach ac mae'r holl gynnwys, y rhyngwyneb a'r bariau cyfarwyddyd yn ddwyieithog. Mae sawl Sir arall wedi mynegi diddordeb yn y meddalwedd ac mae'r Cyngor hwn yn falch o'r ffaith ei fod wedi dangos blaengaredd trwy gyfrannu i brif ffrydio'r Gymraeg i'r maes e ffurflenni ar lefel sirol, rhanbarthol ac efallai cenedlaethol.

(v) **Technoleg Gwybodaeth yn y maes Addysg**

Mae'r Cyngor Sir trwy'r cwmni ymgynghorol addysg 'Cynnal' yn gwerthu cyfrifiaduron a gliniaduron i ysgolion gyda'r rhyngwyneb Cymraeg Windows XP a Microsoft Office 2007 ac yn ogystal, gwerthir meddalwedd 'Cysill' a 'Cysgair' i'r rhai sy'n dymuno ei brynu. O ran meddalwedd addysgol, mae cwmni 'Cynnal' wedi cymryd rhan yn y broses o gyfieithu cyfres Clicker 'New to English' i'r Gymraeg sef 'Newydd i'r Gymraeg' ar ffurf 3 cryno ddisg ac hefyd wedi cyfieithu un o'r cryno ddisgiau 2Simple 'Simple City' i'r Gymraeg. Credir fod rhain i gyd yn enghreifftiau effeithiol o brif ffrydio'r Gymraeg i'r maes addysgol.

5.2.4. **Arferion Da o fewn y Gwasanaethau**

Isod ceir rhai enghreifftiau o arfer dda ar draws y gwasanaethau i brif-ffrydio'r Gymraeg:

- Cynhelir sesiynau dwyieithog o'r 'ysgol haf i nain a taid' a gynhelir dros chwech wythnos gwyliau'r haf yng Nghanolfannau Heneiddio'n Dda yr ynys.
- Cynnal teithiau cerdded dwyieithog drwy'r prosiect 'Camu Allan'.
- Cynnal sesiynau i'r cyhoedd sef 'Hawl i Holi'r Pwyllgor Gwaith.
- Cwmni'r Frân Wen yn cynnal dramau i ymwelwyr/blant yn safleoedd treftadaeth yr ynys.
- Eisteddfod ar gyfer Pobl Hyn.
- Seremoni Dysgwr y Flwyddyn ar 23 Mehefin, 2010 pryd y bydd Meggan Lloyd, enillydd dysgwr y flwyddyn 2009, yn dod i siarad efo staff Ynys Môn sy'n dysgu Cymraeg. Bydd yn siarad am ei phrofiadau wrth ddysgu Cymraeg fel Americanes o Ohio ac am ei

phrofiadau yn gweithio mewn ysgol Gymraeg yn Llanfairpwllgwyngyll.

## 6. DADANSODDIAD O BERFFORMIAD FESUL BLAENORIAETH/ TARGED

Mae'r Cyngor Sir yn amlinellu yn ei Raglen Waith y meysydd a bennir ynghyd â'r targedau gogyfer gweithredu ei Gynllun Iaith (gweler Atodiad 1). Mae'r rhaglen waith hon wedi adnabod rhai risgiau y mae angen ymdrin â hwy. Yn Adroddiad Monitro 2006/7 fe adnabuwyd rhai risgiau a chan fod y meysydd yma dal yn flaenoriaeth o safbwynt risg, adroddir ar gynnydd.

| Risg | Camau Cywiro | Cynnydd 2007/8 | Cynnydd 2008/9 | Cynnydd 2009/10 |
|---|---|---|---|---|
| Yr angen i greu Strategaeth Sgiliau ar gyfer y Cyngor Sir fel a nodwyd yn Asesiad Risg Bwrdd yr Iaith Gymraeg. | Strategaeth i'w chyflawni erbyn Rhagfyr, 2007. | Arolwg Sgiliau bellach wedi'i gwblhau fydd yn bwydo i mewn i'r Strategaeth Sgiliau. Amserlen wedi llithrio. | Bydd angen ffurfioli'r drefn o ddiweddaru ystadegau'r Arolwg Sgiliau'n flynyddol a bwrw'n 'mlaen i gwblhau'r Strategaeth Sgiliau. | Mae'r gwaith o baratoi Strategaeth Sgiliau Iaith ar droed mewn ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith. |
| Nid yw proses Asesu Risg yr Awdurdod yn adnabod risgiau mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Iaith. | Integreiddio'r maes iaith i'r broses Asesu Risg gogyfer 2007/8. | Proses o gynnal Adolygiadau Perfformiad Chwarterol wedi cychwyn ond angen rhoi sylw penodol i'r maes iaith. Anelir at wneud hyn o fis Hydref, 2008 ymlaen. | Angen sefydlu proses gogyfer diweddaru ystadegau'r Arolwg Sgiliau yn flynyddol (efallai trwy'r gyfundrefn Adolygiadau Perfformiad Chwarterol). | Mae'r Cyngor Sir wedi sefydlu cyfundrefn gynaliadwy o ddiweddaru ystadegau'r Arolwg Sgiliau ar y meddalwedd adnoddau dynol 'Compel'. |
| Nid yw'r Awdurdod yn ceisio barn defnyddwyr yn ddigonol am | Cynnal Arolygon achlysurol. | Y maes hwn dan ystyriaeth ar hyn o bryd fel rhan o raglen waith y | Trefniadau wedi cymryd lle i gynnal ymarferiad siopwr cudd ym | Mae Arolwg Siopwr Cudd bellach wedi'i gomisynu. Cafwyd oedi yn y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. | | maes Gofal Cwsmer. | mis Medi, 2009 fydd yn fodd o fesur ansawdd.<br><br>Trafodaethau ar y gweill i sefydlu Panel Defnyddwyr a fydd yn gyfwng defnyddiol i holi barn am ansawdd gwasanaethau. | broses oherwydd i'r contractwr gwreiddiol beidio ac ymgymryd â'r comisiwm oherwydd pwysau gwaith o fewn ei sefydliad. Bydd y deilliannau ar gael ym mis Medi, 2010. |
| Yr angen i gynnal asesiadau effaith ieithyddol ar bolisiau a chynlluniau'r Cyngor Sir. | Datblygu a chynyddu'r defnydd o'r Fframwaith Asesu ac Integreiddio | Llawer o waith wedi cael ei wneud yn y maes hwn ac fe adroddir ar ddatblygiadau yn y bennod ar Brif Ffrydio yn yr adroddiad hwn. | Gwaith pellach wedi cael ei wneud ar y maes hwn ac fe adroddir ar ddatblygiadau yn y bennod ar Brif Ffrydio yn yr adroddiad hwn. | Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i fireinio'r Teclyn Asesu Effaith gan edrych ar enghreifftiau o arfer dda mewn sefydliadau eraill. |

## 7. CYHOEDDI GWYBODAETH AR BERFFORMIAD

Cyflwynir yr  Adroddiad Monitroi Bwyllgor Gwaith y Cyngor Sir ar 26 Hydref, 2010.  Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar gyfer y cyhoedd ar wefan y Cyngor Sir ac mewn llyfrgelloedd ar yr ynys.

**Atodiad 1**

**AMSERLEN A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN IAITH (2007-2010)**

| MAES | GWEITHRED | TARGED | CYFRIFOLDEB | CYNNYDD HYD AT MEHEFIN, 2010 |
|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cwsmer** | Hyrwyddo egwyddorion y Cynllun Iaith ymhlith staff a chynnwys hyn yn rhaglen waith gorfforaethol y Cyngor ar Ofal Cwsmer | i'w gyflawni ar ôl i'r Cynllun Iaith diwygiedig gael ei gyhoeddi – Chwefror, 2007 ymlaen. | Uned Bolisi/Adain Ddatblygu. | Mae'r Cyngor Sir wedi Cynhyrchu taflen a'i dosbarthu i staff ym mhecyn cyflog mis Mai, 2008<br><br>Mae'r maes iaith yn cael ei brif Lifo i'r agenda Gofal Cwsmer sydd yn anelu tuag at gyflawni agenda'r Cynulliad, 'Dinasyddion yn Gyntaf'.<br><br>Mae Arolwg Siopwr Cudd wedi'i Gynnal a'r deilliannau ar gael mis Medi, 2010.<br><br>Egwyddorion y Cynllun Iaith yn cael sylw yn y cyfweliad anwytho staff. |
| **Staffio a Monitro Swyddi** | Cytuno ar system o asesu gofynion ieithyddol swyddi er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r Cyngor Sir | Ionawr, 2007 ymlaen. | Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Corfforaethol | Mae hyn yn ddibynnol ar dderbyn canlyniadau'r Arolwg Sgiliau. Cynnydd yn siomedig dan y pennawd hwn.<br><br>Bydd y maes hwn yn derbyn sylw pellach yn sgil ad-drefnu'r Uned Adnoddau Dynol a pharatoi'r Strategaeth Sgiliau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Paratoi Canllawiau Asesu Gofynion Ieithyddol Swyddi i Benaethiaid Gwasanaeth/Tim Adnoddau Dynol | Ebrill, 2007 ymlaen | Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Corfforaethol | Bydd y canllawiau yn cael eu paratoi ar ôl cwblhau yr Arolwg Sgiliau |
| **Hyfforddiant Iaith** | Darparu rhaglen Hyfforddiant i gefnogi'r Cynllun Iaith | Parhaus - eisoes yn weithredol | Adain Ddatblygu | Mae'r rhaglen mewn lle ac mae'r Grwp Tasg Iaith yn cymeradwyo'r egwyddor o dargedu hyfforddiant tuag at rai carfanau o staff yn hytrach na defnyddio dull gwrifoddol yn unig.<br><br>Mae'r Cynllun Codi Ymwybyddiaeth yn dangos cynnydd yn erbyn y maes hwn. |
| | Penodi Tiwtor Iaith dros dro i'r Cyngor i gynyddu sgiliau staff yn y Gymraeg. | Eisoes yn weithredol. | Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaethau Corfforaethol | Tiwtor yn parhau yn ei swydd ac wedi meithrin perthynas waith dda gyda'r dysgwyr a'r adrannau. |
| | Paratoi fframwaith ar gyfer asesu sgiliau iaith unigolion | Angen adolygu a ffurfioli'r broses sydd eisoes mewn bodolaeth – Ebrill, 2007 ymlaen | Uned Bolisi/Adain Ddatblygu | Bydd y maes hwn angen rhagor o sylw. |
| | Gwerthuso llwyddiant penodiad y Tiwtor Iaith | Ebrill, 2008 ymlaen | Grwp Tasg Iaith | Profodd y swydd yn fendithiol o safbwynt hyblygrwydd i drefnu oriau ac amseroedd cyfleus i staff ac i gwrdd ag anghenion penodol. Y model mwyaf hyblyg i'r dyfodol fyddai Tiwtor rhan amser ynghyd â phecyn wedi'i brynu i mewn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gan ddarparwr allanol. |
| **Technoleg Gwybodaeth** | Sicrhau fod Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn cefnogi amcanion y Cynllun.<br><br>Daparu pecynnau meddalwedd ieithyddol megis 'Cysgair' i staff | Ebrill, 2007 ymlaen (aros am arweiniad gan Fwrdd yr Iaith ar y maes e lywodraeth).<br><br>Wedi cychwyn ar y gwaith Ebrill, 2005 - parhaus. | Uned Bolisi/Adain Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu<br><br>Adain Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. | Mae datblygiadau yn y maes hwn yn cael eu cofnodi dan y bennod ar Brif Lifo yn yr Adroddiad Monitro. Credir fod y Cyngor wedi dangos cryn gynnydd yn erbyn y maes hwn gyda ystod o ddatblygiadau megis Côf Cyfieithu, datblygu'r Wefan, pecyn e ffurflenni a.y.y.b.<br><br>Côf Cyfieithu yn cael ei osod fel mater o drefn ar bob cyfrifiadur newydd. |
| **Strwythurau Cefnogol** | Adnabod Uwch Swyddog â chyfrifoldeb am gydlynu materion iaith mewn modd strategol | Gweithredol - Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden yn parhau'n uwch swyddog â chyfrifoldeb am y maes. Deilydd Porffolio Iaith hefyd yn cefnogi'r maes. |
| | Datblygu Strategaeth Iaith Gymunedol | Parhaus - trafodaethau wedi cychwyn ers Ionawr, 2005 gogyfer sefydlu Fforwm Iaith i Fôn. Fforwm yn weithredol erbyn Ebrill, 2006.<br><br>Wedi sefydlu Fforwm Iaith ers Mawrth, 2006.<br><br>Gwerthuso llwyddiant y Fforwm - Ebrill, 2007. | Cyngor Sir/Partneriaid Allweddol yn y maes iaith | Mae trafodaethau parhaus yn cymryd lle gyda Bwrdd yr Iaith ynglyn ag adolygu strwythur y Fforwm Iaith Sirol. Mae'r Is-Bwyllgorau wedi bod yn eithaf cynhyrchiol ond dymunir i'r Fforwm ei hun gael ffocws mwy strategol.<br><br>Cafwyd cyfarfod cyd-rhwng y Cyngor Sir a'r Fenter Iaith a Bwrdd yr Iaith ynglyn â'r uchod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | a bwriedir cael trafodaeth bellach ar y mater. |
| | Sefydlu Grwp Tasg Iaith i gydlynu materion iaith yn strategol ar draws y Cyngor. | Gweithredol. | | Y Grwp Tasg Iaith yn cynyddu mewn momentwm ac yn perchnogi'r maes iaith ar lefel strategol. Mae'r cyfuniad o Ddeilyddion Portffolio a swyddogion allweddol yn profi'n aelodaeth lwyddiannus. |
| **Agweddau Penodol o'r Cynllun** | **Polisiau a Mentrau Newydd**<br><br>Bydd Grwp Partneriaethau Strategol y Cyngor yn ystyried sut y gellir asesu perthnasedd y Cynllun Iaith i bolisiau a mentrau newydd (prif ffrydio). | Hyd at 2010. | Grwp Partneriaethau Strategol. | Mae llawer o fuddsodiad amser wedi cael ei roi i ddatblygu a defnyddio'r Fframwaith Asesu Integredig ar gyfer asesu strategaethau a pholisiau allweddol y Cyngor Sir. |
| | **Nawdd, Grantiau a Swyddogaethau Statudol**<br><br>Bydd sampl o swyddogaethau statudol un gwasanaeth yn cael ei fonitro. | Yn flynyddol hyd at 2010. | Uned Bolisi. | Mae trafodaethau wedi cymryd lle gyda'r Adran Gyllid parthed y ffordd ymlaen.<br><br>Adroddir ar y cynnydd yn erbyn y targed hwn dan 3.2.2. |
| | **Y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol**<br><br>Bydd trefn o hapwirio gwasanaethau yn cymryd lle i asesu'r cynnydd o'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol | Yn flynyddol hyd at 2010. | Uned Bolisi. | Mae briff yn cael ei baratoi gogyfer gwahodd tendrau i fidio i hapwirio gwasanaethau llinell flaen. Yn ogystal, bydd modd asesu'r Cynllun Codi Ymwyddiaeth Iaith gyda'r Tim Plant i fesur y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg maes o law.<br>Mae trefniadau ar y gweill i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gynnal ymarferiad siopwr cudd ym mis Medi, 2009.<br><br>Mae'r ymarferiad siopwr cudd wedi cymryd lle a cheir y deilliannau ym mis Medi, 2010. |
| | **Monitro**<br>Sefydlu systemau gogyfer casglu ystadegau gogyfer adrodd ar ddangosyddion perfformiad diwygiedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg. | Ionawr, 2007 ymlaen. | Uned Bolisi. | Mae'r Cyngor Sir yn adrodd ar y dangosyddion yn unigol trwy gorff yr Adroddiad Monitro.<br><br>Mae trafodaethau wedi'u cychwyn am gynnwys elfennau monitro'r Cynllun Iaith yn yr Adolygiadau Chwarterol a gynhelir gyda'r Cyfadrannau fel rhan o'r gyfundrefn Rheoli Perfformiad. |
| **Ymgyrch Farchnata** | Hyrwyddo cyfleon cyflogaeth a chyfleon i weinyddu'n ddwyieithog o fewn y Cyngor i bobl ifanc yr ynys. | Haf, 2007 ymlaen. | Uned Bolisi. | Mae'r Cynllun Codi Ymwybyddiaeth Iaith yn cyfrannu tuag at hyn yn ogystal â'r Cynllun Hyfforddeion.<br><br>Wedi cynnal cynllun peilot Codi Ymwybyddiaeth Iaith gyda'r Tim Plant, Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Mae gwaith wedi'i wneud i godi proffil y Cyngor fel darpar gyflogwr gyda Chynghorau Ysgol. |

** Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn cael ei diwygio yn ddibynnol ar flaenoriaethau o fewn y Cyngor.

Atodiad 2

**Partneriaeth Plant a Phobl ifanc Ynys Môn**

**Adroddiad Monitro Cynllun Iaith**

***Nifer a % cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â Chynllun Iaith yr Awdurdod***
**Categoriau ii a iii.**

Fel dilyniant i adroddiad 08/09 datblygwyd holiadur yn seiliedig ar fersiwn gan Fwrdd yr Iaith (2000) i asesu'r graddau yr oedd y cyrff sydd yn derbyn cyllid CYMORTH trwy law Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn yn gweithredu o fewn Cynllun Iaith y Cyngor.

Cylchredwyd 30 holiadur ac fe ymatebodd 25 (83%). Gweler y crynodeb canlynol o ganlyniadau'r broses:

**Gwybodaeth Ysgrifenedig/ deunyddiau ar gael yn ddwyieithog:**

| Prosiectau Cymorth 2009/2010 | **Gradd 1**<br>(100%) Holl wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog | **Gradd 2**<br>75% o wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog | **Gradd 3**<br>Mwyafrif o wybodaeth ar gael yn ddwyieithog (+51%) | **Gradd 4**<br>Lleiafrif o wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog (-25%) |
|---|---|---|---|---|
| Nifer a chanran | 18 (72%) | 5 (20%) | 1 (4%) | 1(4%) |

**Nifer o staff sy'n gallu siarad Cymraeg**

| Prosiectau Cymorth 2009/2010 | **Gradd 1**<br>(100%) Holl Staff yn ddwyieithog | **Gradd 2**<br>Mwyafrif o wybodaeth ar gael yn ddwyieithog (51%) | **Gradd 3**<br>Lleiafrif o staff yn ddwyieithog (25%) |
|---|---|---|---|
| Nifer a chanran | 16 (64%) | 8 (32%) | 1 (4%) |

Tystia'r ymatebion fod gwahaniaeth rhwng prosiectau o'r sector gyhoeddus a nifer o brosiectau llai o'r drydydd sector. Golygai hyn fod llai o brosiectau yn cyrraedd **Gradd 1**.

Roedd nifer o brosiectau yn nodi eu parodrwydd i'w gweithwyr  wisgo bathodyn  '*Dwi'n siarad Cymraeg'.*

Bydd cylch ariannu CYMORTH yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Bwriedir sefydlu gwaelodlin monitro blynyddol ar gyfer prosiectau'r cynllun a fydd yn olynu o Ebrill 2011 ymlaen. Byddai'r broses honno yn cynnwys cefnogaeth ac arweiniad i brosiectau sydd heb gyrraedd eu llawn botensial o ran gweithredu egwyddorion Cynllun Iaith y Cyngor..

***Hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y Cynlluniau Strategol***

Bydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn yn cael ei ail lansio yn ei gwedd newydd ym Medi 2010. O fewn y strwythur newydd bydd 4 grwp thematic gan gynnwys 1 grŵp penodol a fydd yn canolbwyntio ar ddiwylliant a dwyieithrwydd.  Bydd y grŵp a fydd yn yn canolbwyntio ar ddiwylliant a dwyieithrwydd yn hyrwyddo , rhannu ymarfer da ac yn monitro  y defnydd o'r Gymraeg yng  Ngwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn.

**YMATEB Y CYNGOR SIR I SYLWADAU BWRDD YR IAITH GYMRAEG AR ADRODDIAD MONITRO'R CYNGOR SIR AR EI GYNLLUN IAITH AM Y CYFNOD 2009-10**

| ADRAN | CRYNODEB O SYLW BWRDD YR IAITH | YMATEB/GWEITHREDIAD |
|---|---|---|
| **1.Cyflwyniad** | **Cynllun Iaith y Cyngor Sir**<br>Pryd fydd y Grwp Tasg Iaith yn craffu penodiadau i'r Cyngor?<br><br>**Trefniadau Adrodd a Monitro**<br>A fydd gwaith y Grwp Tasg Iaith yn dilyn y drefn craffu gorfforaethol diwygiedig? | Rôl a swyddogaeth y Grwp Tasg Iaith yn y broses o gael ei adolygu erbyn 31/3/11 gyda chefnogaeth yr ymgynghorydd allanol a benodwyd gan Fwrdd yr Iaith i gefnogi'r Cyngor i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth fewnol. |
| **2. Cydymffurfio â'r Cynllun**<br>**2.1. Gwasanaethau Rheng Flaen** | **Gwasanaethau Rheng Flaen**<br><br>**Dangosydd 2 – Staff derbynfeydd sy'n siarad Cymraeg**<br>Cymeradwyir y ffaith fod pob aelod o staff a gyflogir gan y Cyngor ar dderbynfeydd y prif leoliadau yn ddwyeithog ac y dynodir y swyddi yn rhai 'Cymraeg hanfodol'. Gofynnir yn nawr i'r Cyngor ystyried adrodd i'r dyfodol ar y staff sydd â chyswllt rheolaidd â'r cyhoedd e.e.staff llyrgelloedd, canolfannau hamdden . | Bydd yr argymhelliad hwn yn derbyn sylw pellach wrth baratoi yr Adroddiad Monitro gogyfer 2010/11 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Arolwg Siopwr Cudd**<br>Camolwyd ymateb y Cyngor i'r Arolwg Siopwr Cudd o wasanaeth ar y ffôn, wyneb yn wyneb a thrwy lythyr (er fod lle i atgoffa staff o brif egwyddorion y Cynllun Iaith). Mae hyn yn cael ei gydnabod fel arfer dda. Awgrymwyd y dylid hapwrio meysydd eraill pe bai arian yn caniatau a gosod amodau iaith mewn cytundebau e.e. iaith gwersi a dosbarthiadau hamdden. | Mae'r gallu i gyflawni hyn yn ddibynol ar y cyllid fydd ar gael i'r dyfodol. |
| **2.2..Gwasanaethau Iaith Gymraeg** | **Trefn Gwynion**<br>Cymeradwywyd trefniadau'r cyngor i gynnwys cwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn rhan o'r drefn gorfforaethol o adrodd ar gwynion.<br><br>Gan fod nifer y cwynion yn isel, a godwyd ymwybyddiaeth y gwasanaethau o'r angen i gyfeirio cwynnion am y Gymraeg at sylw'r Swyddog Gofal Cwmser?. | <br><br><br><br>Hyn wedi ei gyflawni. |
| **2.3 Gwerthusiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg** | Nodwyd fod y Cyngor yn cynnig gwasanaeth dwyieithog llawn ar y we ac wrth gweinyddu etholiadau.<br><br>A yw'r Cyngor wedi mynegi pryderon i'r Porth Cynllunio ynglyn âr diffyg gwasanaeth Cymraeg a ddarperir?. | <br><br><br>Do mae'r Cyngor wedi mynegi pryderon am y ddiffyg darpariaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Rheolaeth a Gweinyddiaeth y Cynllun**<br>**3.1. Asesu Risg yn y maes Sgiliau** | Mae Bwrdd yr Iaith yn nodi'r angen i'r Cyngor Sir gael copi o'r Strategaeth Sgiliau iddynt , er sylwadaeth erbyn diwedd Rhagfyr, 2010. | Mae'r Strategaeth Sgiliau wedi'i chwblhau mewn ffurf drafft ar hyn o bryd ac yn cael ei chylchredeg yn fewnol, er sylwadaeth. Yn ogystal, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi derbyn copi. |
| **3.2.1 Cyrff Trydydd Parti** | Gofynnir i'r Cyngor Sir ystyried rhannu gwybodaeth o gofnodion monitro chwarterol yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gontractau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.<br><br>Pan ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn y cytundebau sy'n rhan o'r Cynllun Cytundeb Ansawdd ar gyfer gofal preswyl a nyrsio?<br><br>Cymeradwywyd y gwaith monitro i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Cynllun Iaith gan y cryff sy'n derbyn grant CYMORTH ac anogir y Cyngor i sicrhau fod y gwaith hwn yn parhau. | Mae crynodeb o gofnodion monitro chwarterol Gorff/Medi 2010 wedi'i ddarparu ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r un canllawiau o fewn y fframwaith cytundebau gyda'r sector gwirfoddol a sydd yn y Cytundeb Ansawdd sef:<br><br>* Nifer o gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg (llawn amser/rhan amser)<br>* Nifer o staff cyflogiedig sy'n siarad Cymraeg (llawn amser/rhan amser)<br>* Nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg<br>* Nifer o ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg<br>*Esiampl o gydymffurfiaeth gyda polisi iaith y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| **3.2.2.- Nawdd, Grantiau a Swyddogaethau Statudol** | Mynegwyd siom na lwyddwyd i hapwirio ymrywymiadau'r cyrff gwirfoddol a dderbyniodd gefnogaeth ariannol gan y Cyngor.<br><br>Pa drefniadau sydd wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau y cynhelir yr hapwiriadau y tro nesaf fydd y Panel Grantiau'n cyfarfod?. | Bydd y Swyddogion sy'n cydlynu gwahanol gategoriau o geisiadau grant i gyrff gwirfoddol yn darparu gwybodaeth penodol ynglyn a ymrwymiad yr ymgeiswyr y maent yn ystyried argymell dyrannu arian iddynt yn gynharach yn y broses werthuso. Bydd hyn yn galluogi deialog adeiladol mewn da bryd cyn i'r llythyrau cynnig grant gael eu gyrru allan. |
| **4. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg**<br>**4.1. DIG5** | **Nodwyd y ffaith fod y canrannau o siaradwyr Cymraeg yn ymddangos yn gymharol gyson i flynyddoedd a fu (dros 75% yn gallu darparu gwasanaeth llawn yn y Gymraeg).**<br><br>**Ydi'n bosibl darparu dadansoddiad manylach o'r ystadegau?.**<br><br>**Oes trefniadau mewn lle ar gyfer cwblhau yr Awdit Sgiliau?** | Gellir gwneud hyn yn Adroddiad Monitro 2011/12.<br><br>Mae'r weithred hon yn rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau. |
| **4.2. Sgiliau Iaith Gymraeg – Hyfforddiant** | **DIG 4(a)**<br><br>Adroddwyd ar y dangosydd hwn yn llawn a nodwyd y gobeithir y bydd y Strategaeth Sgiliau yn galluogi'r Cyngor i adrodd ar nifer y swyddogion di-Gymraeg sy'n mynychu hyfforddiant ac sydd mewn swyddi Cymraeg | Bydd y Strategaeth Sgiliau yn darparu strwythur i adrodd ar hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | ‘hanfodol’ neu mewn swydd ble ceir cyswllt â’r cyhoedd. | |
| **DIG 4(b)+5.2.1 – Ymwybyddiaeth Iaith** | Croesawyd yr elfennau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a ddarperir fel rhan o’r drefn anwytho/sesiynau a gynhaliwyd gyda’r Tim Plant. | Bydd y Cyngor yn darparu adroddiad diwedd prosiect i Fwrdd yr Iaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol (derbyniwyd grant dan y prosiect Gweithleoedd Dwyieithog gan Fwrdd yr Iaith ar gyfer y prosiect hwn). |
| **5. Prif Ffrydio’r Gymraeg**<br>**5.1.1. Canllawiau Cynllunio Cymunedol** | A fydd asesiad effaith penodol ar y Gymraeg yntau a fydd cwestiynau ar y Gymraeg wedi’u hymgorffori i asesiadau effaith eraill? | Tybir ar hyn o bryd mae un asesiad effaith cyfansawdd a gynhelir ar y Cynllun Cymunedol drafft. |
| **5.1.2. Amcanion Strategol Cynllun Corfforaethol** | Croesawyd presenoldeb y Gymraeg fel un o chwe thema weithredol y Cynllun Cymunedol. Oes tystiolaeth o’r amcan strategol mewn cynlluniau busnes?. | Mae’r amcan strategol yn gynwysiedig mewn oddeutu 6 Cynllun Busnes ar hyn o bryd. |
| **5.1.3 Cynllun Plant a Phobl Ifanc** | Croesawyd y ffocws ar y Gymraeg o fewn y grwp thematig ‘Diwylliant a’r Iaith Gymraeg’.<br><br>Gofynnir i’r Cyngor adrodd ar y 5 cwestiwn a osodwyd gan Fwrdd yr Iaith i Gynghorau adrodd ar y ddarpariaeth ieunctid cyfrwng Cymraeg. | <br><br><br><br>Mae’r gwaith hwn eisoes yn derbyn sylw a bwriedir adrodd i Fwrdd yr Iaith ar y 5 cwestiwn craidd ac maent wedi cael eu prif lifo i waith y gwasanaeth erbyn hyn. |
| **5.1.4 Cynllun Datblygu Lleol** | A ddylai’r Grwp Asesu Effaith Ieithyddol fod yn trafod ac yn ystyried y ffigyrau tyfiant cyn iddynt gael eu pennu er mwyn dylanwadu ar y penderfyniad os y canfu fod lefel y tyfiant yn niwediol i sefyllfa’r iaith ar yr | Y bwriad fydd i’r Grwp Asesu Effaith Ieithyddol gyfarfod i asesu’r opsiynau bras ar gyfer y gwahanol lefel o dyfiant yn y cynllun. Byddai’r broses hon yn digwydd wedi i’r sail tystiolaeth briodol gael ei hel ar gyfer y ffigyrau bras o |

| | | |
|---|---|---|
| | ynys?. | fewn yr opsiynau. Byddai wedyn rôl i'r Grwp Asesu Effaith Ieithyddol drafod yr opsiynal bras yma ar gyfer asesu eu heffaith o ran yr iaith cyn dewis y lefel derfynol. |
| **5.1.5. Fframwaith Asesu Integredig** | Pa bryd y rhagwelir cyflwyno'r Fframwaith Asesu Integredig? | Rhagwelir mabwysiadu'r fframwaith yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ariannol 2011/12 |
| **5.1.6. Asesu Effaith Cydraddoldeb** | A roddwyd sylw i hwylustod mynediad i wasanaeth Cymraeg e.e. problemau megis prinder gweithwyr Cymraeg eu hiaith yn y maes cefnogol iechyd meddwl? | Mae Swyddogion y Cyngor yn y broses o roi ystyriaeth i gyfres o declynau Asesu Effaith ar hyn o bryd. Bydd sylwadau'r Bwrdd yr Iaith yn cael sylw o fewn y broses honno. |
| **5.2.3. Technoleg Gwybodaeth** | **Y Wefan**<br><br>Canmolwyd safon uchel y gwasanaeth a gynigir ar y wefan ond nodwyd fod y defnydd braidd yn isel.<br><br>I hwyluso'r defnydd awgrymwyd buddosoddi mewn tudalen 'splash' sy'n rhoi dewis iaith cyn cael mynediad i'r safle. | Rhoddir ystyriaeth i'r mater ond mae'n ddibynnol ar argaeledd cyllidol. |
| **5.2.4. Arferion Da** | Canmolwyd y Cyngor am ddarparu cyfleon i'r cyhoedd ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. | Bydd y Cyngor yn parhau i gynllunio'n fwriadus i ddarparu hyn. |
| **6. Dadansoddiad o Berfformiad Fesul Blaenoriaeth/Targed** | Mae disgwyliad ar y Cyngor eleni fabwysiadu Strategaeth Sgiliau ac yna diwygio ei Gynllun Iaith stadudol ar ôl mabwysiadu'r Strategaeth Sgiliau | Mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r amserlen hon |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymeradwywyd y rôl craffu newydd a roddir i'r Grwp Tasg Iaith ond nodwyd yr angen i sicrhau fod y gwaith craffu yn bwydo i'r drefn gorfforaethol ehangach. | Mae'r ffaith fod yr Uned Bolisi yn adrodd ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar weithrediad y Cynllun Iaith i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn sicrhau fod y maes iaith yn cael ei fwydo i'r drefn gorfforaethol ehangach. |